YMWELIAD SAFLE CYNLLUNIO

Cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd, 2022

YN BRESENNOL:	Cynghorydd Neville Evans (Cadeirydd) Cynghorwyr Jeff Evans, Trefor Lloyd Hughes, MBE, R. Llewelyn Jones, Jackie Lewis, Ken Taylor.
WRTH LAW:	Rheolwr Rheoli Datblygu (RLlJ) Swyddog Cynllunio (HR)
YMDDIHEURIADAU:	Cynghorwyr Geraint Bebb, Glyn Haynes, Dafydd Roberts, Robin Williams, Liz Wood
HEFYD YN BRESENNOL:	Aelod Lleol: Cynghorydd Alun Roberts

---

1. HHP/2022/46 – Cais llawn ar gyfer dymchwel, addasiadau ac estyniadau yn Tan yr Allt Bach, Llanddona.

Mynychodd Aelodau'r Pwyllgor yr ymweliad safle ar draeth Llanddona er mwyn gallu gweld y cais o gyfeiriad y traeth. Cafodd safle'r cais ei archwilio a dangoswyd y cynlluniau safle arfaethedig i'r Aelodau a chawsant weld yr annedd presennol. Mynegwyd pryderon am y strwythur gwydr cysylltiol rhwng yr annedd presennol ac estyniad newydd arfaethedig i'r ochr a'r potensial ar gyfer creu dau annedd preswyl. Eglurodd y Swyddogion y cais ac fe gadarnhawyd nad yw'r estyniad i'r ochr o'r eiddo presennol yn cynnwys unrhyw ystafelloedd gwely. Cadarnhawyd hefyd y byddai'r cynnig yn golygu newid yr annedd presennol o dŷ 3 ystafell wely i dŷ 5 ystafell wely.

Cynghorydd Neville Evans
(Cadeirydd)